SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru “**Gwneud y Cysylltiadau**” Digwyddiad Ymgysylltu Trydydd Sector 20 Chwefror 2014

# Adroddiad am y digwyddiad

**Digwyddiad**

Ar 20 Chwefror 2014, mynychodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddigwyddiad er mwyn ymgysylltu â sefydliadau o fewn y sector gwirfoddol a gwasanaethau cymunedol (y cyfeirir ato hefyd fel y trydydd sector). Prif ddiben y digwyddiad oedd ymgynghori â rhanddeiliaid ar Gynllun Heddlu a Throsedd 2014/15 a hefyd ymgynghori ar Gytundeb newydd sydd wedi’i ddatblygu rhwng y Comisiynydd a'r trydydd sector.

Cynhaliwyd y digwyddiad yng Ngwesty Oriel House yn Llanelwy ac fe’i fynychwyd gan 70 o bobl a oedd yn cynrychioli 44 o sefydliadau lleol a rhanbarthol. Gweler yn Atodiad A, restr o’r sefydliadau a fynychodd ac a gyfrannodd at yr ymgynghoriad.

Diben yr adroddiad hwn yw adrodd yn ôl i’r bobl a gyfrannodd ar y diwrnod am y negeseuon allweddol a’r newidiadau sydd wedi deillio o’r cyfraniadau hynny.[1]

**Cynllun Heddlu a Throsedd 2014/15**

Gofynnwyd am adborth gan fynychwyr am y canlyniadau a’r amcanion arfaethedig a nodwyd yn y Cynllun Heddlu a Throsedd Drafft. Mae tri chanlyniad wedi’u nodi:

- Diogelwch yn y cartref
- Bod yn saff mewn mannau cyhoeddus
- Plismona gweladwy a hygyrch

Y pedwar amcan oedd:

- Atal trosedd
- Darparu ymateb priodol
- Lleihau niwed a’r risg o niwed
- Adeiladu partneriaethau effeithiol

[1] Cododd rhai cyfranwyr faterion yn ymwneud â materion plismona gweithredol ar y diwrnod. Mae pryderon o’r fath wedi eu cyfeirio at Heddlu Gogledd Cymru yn uniongyrchol.

Nododd cyfranwyr eu bod, ar y cyfan, yn fodlon â'r amcanion a awgrymwyd ond bod angen mwy o wybodaeth arnynt am y ffordd yr oedd y Comisiynydd wedi penderfynu arnynt a pha ymchwil/ymgysylltu oedd wedi ei arwain at osod y rhain yn benodol. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynnwys gwybodaeth ar y wefan pan gyflwynir y cynllun, a fydd yn rhoi gwybodaeth gefndirol am y gweithgareddau y mae'r Comisiynydd wedi'u cyflawni drwy gydol y flwyddyn er mwyn ei gynorthwyo i osod yr amcanion presennol.

Awgrymwyd hefyd y dylid adnabod "plismona effeithiol" fel un o ganlyniadau'r Cynllun. Ar ôl ystyried hyn ac wedi adolygu'r Cynllun, cytunodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ei bod hi'n bwysig nodi "plismona effeithiol" fel nod o fewn y Cynllun. O ganlyniad, diwygiwyd yr ail o'r pedwar amcan i adlewyrchu hyn ac mae bellach wedi newid i "Darparu ymateb effeithiol". Mae'r newid hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd hyrwyddo ymateb plismona sy'n gweithredu'n effeithiol yn ein cymunedau.

Mynegwyd pryder nad oedd cyfeiriad penodol at y trydydd sector fel partner yn y Cynllun Heddlu a Throsedd Drafft. Mae'r Trydydd Sector yn cael eu cynrychioli (drwy'r cynghorau gwasanaethau gwirfoddol) ar y Bwrdd Cymunedau Diogelach, y cyfeirir ato fel grŵp partneriaeth allweddol. Yn ogystal, fel a nodir yn glir yn y Cytundeb, mae'r trydydd sector yn bartner pwysig ac allweddol ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Roedd rhai o'r cyfranwyr yn teimlo nad oedd hi'n glir o'r Cynllun drafft sut y byddai'r ddarpariaeth a'r gwaith o fonitro'r ddarpariaeth yn digwydd. Mae cynllun gwaith Heddlu Gogledd Cymru bellach wedi'i atodi i'r Cynllun er mwyn dangos yn union sut y bydd y ddarpariaeth yn digwydd. Cyhoeddir gwaith craffu a llywodraethu'r Comisiynydd ar yr Heddlu ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd er mwyn i randdeiliaid allu gweld sut mae'r sut mae'r Comisiynydd yn dal Heddlu Gogledd Cymru yn atebol am ddarpariaeth yr amcanion a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd.

**Y Cytundeb 2014/15**

Gofynnwyd i fynychwyr a rhanddeiliaid allweddol fynegi eu sylwadau ar addasrwydd y Cytundeb a chadarnhau ei fod yn addas i'r diben.

Nododd cyfranogwyr bod y cytundeb yn iawn yn gyffredinol, ond y bydd angen i'r ymgysylltiad rhwng y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r sefydliadau trydydd sector fod yn un go iawn ac effeithiol. Nodwyd fod angen i'r Trydydd Sector deimlo ei bod hi'n sgwrs ddwy ffordd. Roedd pobl yn teimlo bod y Comisiynydd angen rhyngweithio'n gadarn â grwpiau cymunedol er mwyn gweld sut y gallant weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn cytuno ag egwyddorion a chynigion y Cytundeb ond yn teimlo mai'r gwir brawf fyddai gweld a fyddai'r addewidion hynny'n cael eu cyflawni dros y flwyddyn sydd i ddod.

Dywedodd rhai y dylid cael protocol ar gyfer ymgysylltiad trydydd sector, ynghyd â strategaeth cyfathrebu. Dylid hefyd cael proses a methodoleg ar gyfer darparu canlyniadau clir. Roedd rhai yn dadlau nad yw'r ffactorau hyn o reidrwydd yn amlwg o fewn y Cytundeb drafft.

Mae'r Comisiynydd bellach wedi cytuno'n ffurfiol ar y Polisi Cyfathrebu ac Ymgysylltu y mae'r Cytundeb yn rhan ohono. Mae'r polisi hwn yn darparu rhai o'r manylion ychwanegol y gofynnwyd amdanynt gan

gyfranogwyr mewn perthynas â chyfathrebu a darpariaeth canlyniadau. Mae'r polisi hwn i'w gynnwys fel atodiad i'r Cytundeb.

Bwriad y Cytundeb hwn yw ffurfioli'r berthynas rhwng y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Trydydd Sector ac i sefydlu'r isafswm safonau ar gyfer cyswllt ac ymgysylltiad rhwng y ddau. Mae'r canlyniad eto i'w fesur. Bydd ei lwyddiant neu fel arall yn cael ei fesur gan weithgareddau ymgysylltu'r flwyddyn i ddod ac yn cael ei adrodd yn ôl arno yn nigwyddiad y flwyddyn nesaf. Bryd hynny byddwn yn adlewyrchu ar ac yn dysgu o brofiadau'r flwyddyn ac yn derbyn adborth gan y sector.

**Gair gan y Comisiynydd**

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd rydw i'n ddiolchgar iawn i bawb a fynychodd y digwyddiad a/neu a roddodd adborth mewn ymateb I'r Cynllun Heddlu a Throsedd a'r Cytundeb Trydydd Sector. Rydw I wedi gwrando ar eich safbwyntiau.

Mae'n hanfodol fy mod yn ymgysylltu mewn modd priodol ac effeithiol ag asiantaethau trydydd sector wrth i ni ddechrau ar flwyddyn ariannol a phlismona newydd. Mae angen i ni weithio'n effeithiol mewn partneriaeth a byddwn i gyd yn wynebu nifer o heriau ariannol a gweithredol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae gen i ragolwg strategol ar blismona ond mae hefyd yn hanfodol fy mod yn gallu gweld pethau o safbwynt y rheng flaen; o safbwynt y rhai hynny ohonoch sy'n delio â'r ochr weithredol, sy'n helpu ac yn cefnogi dioddefwyr, sy'n helpu i leihau trosedd a chadw cymunedau yn ddiogel. Diolch i chi am gymryd rhan ac edrychaf ymlaen at gyfarfod cynifer ohonoch â phosib dros y flwyddyn sydd i ddod. Wrth gwrs, byddaf yn parhau i ymgysylltu â'r chwe chyngor gwasanaeth gwirfoddol er mwyn sicrhau fy mod yn derbyn safbwyntiau allweddol o bob rhan o'r sector.

| | |
|---|---|
| 1. | NWAMI |
| 2. | Canolfan Gymunedol Craig y Don |
| 3. | UNIQUE |
| 4. | Dinesydd preifat |
| 5. | Gwasanaeth Camdriniaeth Ddomestig Aberconwy |
| 6. | Fforwm Anableddau Dysgu |
| 7. | NACRO |
| 8. | Hafal |
| 9. | NWAAA |
| 10. | ARC |
| 11. | Clwyd Alun |
| 12. | Cymorth i Ddioddefwyr |
| 13. | NWFA |
| 14. | Cyngor Tref y Waun |
| 15. | Ymddiriedolaeth Noddfa / Sanctuary Trust |
| 16. | Cenedlaethau Ynghyd Cymru |
| 17. | JIGSAW |
| 18. | Cymdeithas Trigolion Dwyrain Hen Golwyn |
| 19. | Prifysgol Glyndŵr |
| 20. | Ymddiriedolaeth y Tywysog |
| 21. | CVSC |
| 22. | Vision Support |
| 23. | UNIQUE |
| 24. | NEWSA |
| 25. | Dinesydd Preifat |
| 26. | Cyfiawnder Ieuenctid |
| 27. | Swyddog Cymunedau Menter |
| 28. | Age Cymru Gwynedd a Môn |
| 29. | Cynghorydd Cyngor Sir Ddinbych |
| 30. | WI Dyserth |
| 31. | Cyngor Sir Ddinbych |
| 32. | Strategaeth Dinas Y Rhyl |
| 33. | RNIB Cymru |
| 34. | Cymorth I Unigolion (PSS) |
| 35. | NACRO |

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

| | |
|---|---|
| 36. | Cartrefi Conwy |
| 37. | Dinesydd |
| 38. | RASASC NW |
| 39. | Bwrdd CCG |
| 40. | BAWSO |
| 41. | DGDAS |
| 42. | DVSC |
| 43. | Mantell Gwynedd |
| 44. | Medrwn Môn |